

**COFNODION 'HEB EU CADARNHAU' O GYFARFOD 'MEWN PWYLLGOR'
O FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (CTMUHB),
A GYNHALIWDY DDYDD IAU 28 TACHWEDD 2019,
YN NHŶ YNYSMEURIG, ABERCYNON**

YN BRESENNOL:

Marcus Longley	Cadeirydd
Sharon Hopkins	Prif Weithredwr (Dros Dro)
Maria Thomas	Is-gadeirydd
Mel Jehu	Aelod Annibynnol (am ran o'r cyfarfod)
James Hehir	Aelod Annibynnol
Paul Griffiths	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol (am ran o'r cyfarfod)
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Alan Lawrie	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Steve Webster	Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael
Liz Wilkinson	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Nick Lyons	Cyfarwyddwyr Meddygol
Ruth Treharne	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad

YN Y CYFARFOD:

John Palmer	Prif Swyddog Gweithredol
Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro)
Deb Matthews	Pennaeth Nyrsio, Anaestheteg, Gofal Critigol a Theatrau (am ran o'r cyfarfod)
Kevin Gallagher	Offthalmolegydd Ymgynghorol (am ran o'r cyfarfod)
Alix Hayman	Rheolwr Cymorth i'r Gyfarwyddiaeth, Anaestheteg
Kath McGrath	Gofal Critigol a Theatrau, a Gwasanaethau'r Pen a'r Gwddf (am ran o'r cyfarfod)
Donna Seldon	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol / Arweinydd ar gyfer Apwyntiadau Cleifion Allanol Na Chawsant eu Trefnu (FUNB) (am ran o'r cyfarfod)
Shaki Mustafa	Uwch-nyrs, Llawfeddygaeth (am ran o'r cyfarfod)

Neil Cooper Llawfeddyg y Geg a'r Wyneb Ymgynghorol (am ran o'r cyfarfod)
Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, TGCh a'r Gwddf (am ran o'r cyfarfod)
Cyfarwyddwr, Deloitte (yn arsylwi)

John Murray
Wendy Penrhyn-Jones Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol
(Ysgrifennyddiaeth)

UHB/B/19/167 **CROESO A CHYFLWYNIADAU**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

UHB/B/19/168 **YMDDIHEURIADAU ABSENOLDEB**
DERBYNIWYD ymddiheuriadau gan Keiron Montague, Aelod Annibynnol;
Phillip White, Aelod Annibynnol; Anne Phillimore, Cyfarwyddwr y Gweithlu a
Datblygu Sefydliadol (Dros Dro); David Jenkins, Cymorth Annibynnol i
Gadeirydd CTMUHB.

UHB/B/19/169 **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**
Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

UHB/B/19/170 **APWYNTIADAU CLEIFION ALLANOL NA CHAWSANT EU TREFNU (FUNB)**
Croesawodd M Longley gydweithwyr a oedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod er mwyn cyfrannu at y cyflwyniad am y diweddariad uchod.

DEBYNIWYD adroddiad a chyflwyniad manwl, oedd yn nodi canfyddiadau presennol y rhaglen waith ar gyfer FUNB, a'r camau sy'n cael eu cymryd, neu'r camau y bwriedir eu cymryd, i fynd i'r afael â hyn ym mhob arbenigedd.

NODODD yr aelodau fod y pwnc wedi bod yn destun llawr iawn o waith ledled Cymru, a bod y perygl o unrhyw ganlyniadau clinigol niweidiol yn sgil achosion o FUNB i gleifion yn ardal Cwm Taf wedi ei drafod yn ddiweddar gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. **NODWYD** bod adolygiad o niwed ar y gweill, a bydd canlyniadau'r adolygiad hwnnw yn cael eu rheoli fel y bo'n briodol. O ran cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol, **NODODD** aelodau y bydd gwaith monitro yn digwydd ac y bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i ddatblygu dangosfwrdd canlyniadau cleifion integredig ar gyfer CTM.

NODODD aelodau y byddai angen recriwtio Offthalmolegydd Ymgynghorol arall i osgoi gorfod defnyddio gwasanaethau allanol eto yn y flwyddyn ariannol newydd, a bod gwersi a ddysgwyd yn sgil yr adolygiad yn cael eu rhannu â Byrddau Iechyd eraill.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.2a

Diolchodd M Longley i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith i ddatrys y mater pwysig hwn. Diolchodd J Palmer gydweithwyr yn yr un modd.

PENDERFYNWYD NODI yr adroddiad

UHB/B/19/171 PWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU (WHSSC) DERBYNIWYD a NODWYD cofnodion y cyfarfod mewn pwyllgor o WHSSC ar 30 Awst 2019 ynghyd â briffiad yn sgil cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.

UHB/B/19/172 DIWEDDARIAD AM YR ADRODDIAD ANNIBYNNOL YNGHYLCH SUT Y DELIWYD AG ADRODDIAD Y FYDWRAIG YMGYNGHOROL AR SECONDIAD AM WASANAETHAU MAMOLAETH YM MWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF (GYNT)

DERBYNIODD a NODODD aelodau o'r Bwrdd y diweddariad am y mater uchod. Datganodd M Longley ei fod yn ymrwymedig i dderbyn a thrafod yr adroddiad mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd Iechyd cyn gynted â phosibl, unwaith y bydd fersiwn terfynol wedi dod i law.

UHB/B/19/173 Nid oedd unrhyw faterion pellach felly cafodd y cyfarfod ei derfynu.

LLOFNOD:.....
Yr Athro Marcus Longley, Cadeirydd

DYDDIAD:.....